Bwrdd Astudiaethau Barnwrol

# CARDIAU CYFEIRIO'R LLYS TEULU

Diweddarwyd Medi 2014

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Gorchmynion eraill | 1 |
| Rhestr wirio lles | 3 |
| Dyrannu achosion | 5 |
| Yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus | 7 |
| Gorchymyn amddiffyn brys | 11 |
| Gorchymyn gofal interim | 13 |
| Gorchymyn gofal | 15 |
| Gorchymyn goruchwylio interim | 17 |
| Gorchymyn goruchwylio | 19 |
| Gorchymyn cyfrifoldeb rhiant | 21 |
| Gorchymyn trefniadau plant | 23 |
| Cyfarwyddyd gweithgaredd/Amod gweithgaredd | 27 |
| Gorchymyn gorfodi/Gorchymyn iawndal ariannol | 28 |
| Gorchymyn gwarchodaeth arbennig | 29 |
| Gorchymyn rhag molestu | 31 |
| Gorchymyn lleoli | 33 |
| Gorchymyn mabwysiadu | 35 |

# Gorchmynion eraill

**Mae'r canlynol yn rhestr o orchmynion y cyfeirir atynt yn Llyfr Mainc y Llys Teulu ond nad oes cyfeiriad cyfatebol atynt yn y canllawiau hyn.**

**Cofiwch ymgynghori â'ch cynghorwr cyfreithiol a darllen eich Llyfr Mainc y Llys Teulu os gofynnir am orchymyn o'r fath.**

## Gorchmynion cyfraith breifat

- Materion penodol.
- Camau gwaharddedig.
- Cymorth teuluol.

## Gorchmynion cyfraith gyhoeddus

- Cyswllt â phlentyn mewn gofal.
- Goruchwylio addysg.
- Llety diogel.
- Asesu plant.
- Adfer.

## Gorchmynion amddiffyn teulu

- Anheddu.

**Dim ond crynodeb o'r wybodaeth i gyfeirio ati sydd ar y cardiau canlynol. Cofiwch siarad â'ch cynghorwr cyfreithiol.**

# Egwyddor lles a rhestr wirio lles

**Mae manylion llawn i'w gweld yn Adran 2 eich Llyfr Mainc y Llys Teulu.**

## Beth ydyw?

- Mae'r egwyddor lles yn datgan, pan fydd llys yn penderfynu ynghylch unrhyw gwestiwn am fagwraeth plentyn, y dylai'r llys sicrhau mai lles y plentyn yw eu hystyriaeth bwysicaf.
- Mae'r rhestr wirio lles yn rhestr nad yw'n gynhwysfawr o ffactorau i'w hystyried wrth wneud penderfyniadau am les y plentyn.

## Beth mae'n rhaid i ni ei ystyried mewn achosion Deddf Plant 1989?

- Dymuniadau a theimladau canfyddadwy'r plentyn dan sylw (wedi'u hystyried yng ngoleuni ei oedran a'i ddealltwriaeth).
- Ei anghenion corfforol, emosiynol ac addysgol.
- Effaith debygol unrhyw newid i'w amgylchiadau arno.
- Ei oed, ei ryw, ei gefndir ac unrhyw nodweddion sydd ganddo.
- Unrhyw niwed y mae wedi'i ddioddef neu y mae mewn perygl o'i ddioddef.
- Gallu'r naill a'r llall o'i rieni, ac unrhyw unigolyn cysylltiedig arall yr ydym yn ystyried bod y cwestiwn yn berthnasol iddo, i ddiwallu ei anghenion.
- Yr amrywiaeth o bwerau sydd ar gael i'r llys dan y Ddeddf hon yn yr achos dan sylw.

## Pryd mae'n rhaid i ni ei ystyried?

- Gweler cardiau'r gorchmynion perthnasol.

Noder, pan fydd y llys yn penderfynu a ydynt am wneud, amrywio neu ollwng gorchymyn trefniadau plant, mater penodol a chamau gwaharddedig, neu'n penderfynu ynglŷn â chyfrifoldeb rhiant, y man cychwyn yw bod rhaid iddynt dybio, oni ddangosir i'r gwrthwyneb, y bydd cynnwys y rhiant ym mywyd y plentyn yn fuddiol i les y plentyn (o hydref 2014 ymlaen).

### Beth mae'n rhaid i ni ei ystyried mewn achosion Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002?

- Dymuniadau a theimladau canfyddadwy'r plentyn ynglŷn â'r penderfyniad (wedi'u hystyried yng ngoleuni oedran a dealltwriaeth y plentyn).
- Anghenion penodol y plentyn.
- Yr effaith debygol ar y plentyn drwy gydol ei fywyd gan ei fod wedi peidio â bod yn aelod o'r teulu gwreiddiol ac wedi cael ei fabwysiadu.
- Oed, rhyw a chefndir y plentyn ac unrhyw nodweddion sydd ganddo.
- Unrhyw niwed y mae'r plentyn wedi'i ddioddef neu y mae mewn perygl o'i ddioddef.
- Perthynas y plentyn â pherthnasau, ac ag unrhyw unigolyn cysylltiedig arall yr ydym yn ystyried bod y berthynas yn berthnasol iddo, gan gynnwys:
  - pa mor debygol ydyw y gwnaiff unrhyw berthynas o'r fath barhau a gwerth hynny i'r plentyn;
  - gallu a pharodrwydd unrhyw un o berthnasau'r plentyn, neu unrhyw unigolyn o'r fath, i ddarparu amgylchedd diogel i'r plentyn lle gall y plentyn ddatblygu ac sydd fel arall yn diwallu anghenion y plentyn; a
  - dymuniadau a theimladau unrhyw un o berthnasau'r plentyn, neu unrhyw unigolyn o'r fath, ynglŷn â'r plentyn.

### Pryd mae'n rhaid i ni ei ystyried?

- Gweler cardiau'r gorchmynion perthnasol.

# Dyrannu achosion

**Mae manylion llawn i'w gweld yn Adran 3 eich Llyfr Mainc y Llys Teulu.**

## Beth ydyw?

- Mae Rheolau, Cyfarwyddiadau Ymarfer a Chanllawiau Llywydd y Llys Teulu (Cyfansoddiad a Dosbarthiad Busnes) yn pennu lle mae'n rhaid cychwyn achos teulu, y broses ar gyfer didoli ceisiadau a'r meini prawf i'w dyrannu i farnwr ar y lefel briodol.
- Os nad yw'r rheolau'n nodi'r dyraniad yn benodol, rhaid i'r tîm didoli ystyried y canlynol:
  - yr angen i ddefnyddio'r adnodd farnwrol leol mor effeithlon ac effeithiol â phosibl;
  - yr angen i osgoi oedi;
  - yr angen am barhad barnwrol;
  - lleoliad y partïon neu blentyn;
  - cymhlethdod.
- Rhaid i'r llys barhau i adolygu'r dyraniad ym mhob gwrandawiad.
- Efallai y bydd yn briodol ailddyrannu achos i farnwr ar haen wahanol i ddatrys un mater, ac yna ei ddyrannu'n ôl i ynadon.

# Yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus 2014

**Mae'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus 2014 wedi'i gynnwys yng Nghyfarwyddyd Ymarfer y Llywydd, Gofal, *Goruchwylio ac Achosion eraill Rhan 4: Canllaw i Reoli Achosion*. Mae'n rhagnodi'r prif egwyddorion y dylai holl aelodau'r farnwriaeth teulu eu defnyddio i reoli achosion plant cyfraith gyhoeddus. Dylai fod gennych eich copi eich hun o'r ddogfen gyflawn. Mae'r detholiad canlynol yn cynnwys y prif gamau gweithredu, a'r diwrnodau pryd mae'n rhaid eu cwblhau. Noder bod rhaid penderfynu ceisiadau gofal a goruchwylio heb oedi ac o fewn 26 wythnos. Gellir caniatáu estyniadau os oes eu hangen i ymdrin â'r achos yn deg, ond ni ddylid eu caniatáu fel mater o drefn a rhaid eu cyfiawnhau'n benodol.**

| Cyn yr achos | Cam 1 – Cyflwyno a dyrannu (Diwrnod 1 – 2) |
|---|---|
| Mae'r rhestr wirio cyn yr achos yn amlinellu pa ddogfennau y dylid eu hatodi at y cais a'u ffeilio yn y llys neu eu datgelu ar gais i un o'r partïon yn yr achos. | Bydd y llys yn:<br>• Dyrannu'r cais i farnwr ar yr haen gywir.<br>• Canfod a oes angen gwrandawiad rhagarweiniol brys neu orchymyn gofal interim sy'n cael ei herio.<br>• Rhoi cyfarwyddiadau safonol am y mater.<br>• Penodi gwarcheidwad y plant. |

| Cam 2 – Gwrandawiad Rheoli Achos | |
|---|---|
| **Cyfarfod yr Eiriolwyr** | **Gwrandawiad Rheoli Achos** |
| Dim hwyrach na 2 ddiwrnod busnes cyn y gwrandawiad rheoli achos. | Nid cyn diwrnod 12 ac nid ar ôl diwrnod 18.<br>Cynhelir Gwrandawiad Rheoli Achos Pellach ond dim ond os oes ei angen; dylid rhestru hwn cyn gynted â phosibl ac erbyn diwrnod 25 fan bellaf mewn unrhyw achos. |
| Bydd eiriolwyr yn:<br>• Ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd.<br>• Canfod safbwyntiau'r partïon ar gyfer y Gorchymyn Rheoli Achos drafft.<br>• Os oes angen, canfod arbenigwyr arfaethedig a drafftio cwestiynau ar eu cyfer.<br>• Canfod unrhyw ddatgeliad sydd ei angen.<br>• Hysbysu'r llys os oes angen gorchymyn gofal interim sy'n cael ei herio neu unrhyw fater yn ymwneud â dyrannu.<br>Bydd eiriolwr yr awdurdod lleol yn ffeilio Gorchymyn Rheoli Achos drafft erbyn 11am ar y diwrnod busnes cyn y Gwrandawiad Rheoli Achos neu'r Gwrandawiad Rheoli Achos Pellach. | Bydd y llys yn rhoi cyfarwyddiadau rheoli achos manwl gan gynnwys:<br>• Pennu'r amserlen ar gyfer y plentyn ac amserlen yr achos a phenderfynu a oes angen estyniad.<br>• Cadarnhau'r dyraniad.<br>• Canfod y materion allweddol a'r dystiolaeth sydd ei hangen i'w datrys.<br>• Gwneud penderfyniad am unrhyw gais am arbenigwr a gwneud cyfarwyddiadau priodol yn unol â'r Rheolau a'r Cyfarwyddiadau Ymarfer.<br>• Cyfarwyddo'r gwaith o ffeilio dogfennau ar gyfer y Gwrandawiad Datrys Problemau.<br>• Cyfeirio Cyfarfod Eiriolwyr a chyflwyno'r Gorchymyn Rheoli Achos. |

| Cam 3 – Gorchymyn Datrys Problemau | |
|---|---|
| **Cyfarfod yr Eiriolwyr** | **Gwrandawiad Datrys Problemau** |
| Dim hwyrach na 7 diwrnod busnes cyn y gwrandawiad datrys problemau. | Bydd yn digwydd yn unol â chyfarwyddyd y llys, ac yn unol ag amserlen yr achos. |
| Bydd eiriolwyr yn:<br>• Adolygu tystiolaeth a safbwyntiau'r partïon.<br>• Canfod barn eiriolwyr am y problemau allweddol a sut y gellir eu datrys neu eu lleihau yn y Gwrandawiad Datrys Problemau, pa dystiolaeth ychwanegol sydd ei hangen i gyflawni hyn, a ddylid rhoi tystiolaeth lafar yn y Gwrandawiad Datrys Problemau ac a oes angen gwrandawiad wedi'i herio, tystion sydd eu hangen yn y gwrandawiad terfynol.<br>Bydd eiriolwr yr awdurdod lleol yn ffeilio Gorchymyn Rheoli Achos drafft erbyn 11am ar y diwrnod busnes cyn y Gwrandawiad Datrys Problemau. | Bydd y llys yn:<br>• Canfod y problemau allweddol.<br>• Datrys a lleihau'r problemau.<br>• Ystyried a ellir defnyddio'r Gwrandawiad Datrys Problemau fel gwrandawiad terfynol.<br>• Os na ellir, canfod y dystiolaeth sydd ei hangen i ddatrys y problemau sy'n weddill.<br>• Rhoi cyfarwyddiadau rheoli achos i sicrhau bod y gwrandawiad terfynol yn effeithio.<br>• Cyflwyno'r Gorchymyn Rheoli Achos. |

# Gorchymyn amddiffyn brys

**Mae manylion llawn i'w gweld yn Adran 6 eich Llyfr Mainc y Llys Teulu.**

## Beth ydyw?

- Mae'n fesur Draconaidd a dim ond dan amgylchiadau eithafol y caiff ei ddefnyddio.
- Mae'n symud plentyn sydd mewn perygl o niwed i fan diogel (neu'n ei gadw mewn man diogel).
- Mae'n darparu rhywfaint o gyfrifoldeb rhiant i'r Ceisydd.
- Gellir ymgorffori gofyniad eithrio ar gyfer unigolyn penodol hefyd.

## Beth mae'n rhaid i ni ei ystyried?

- Bod achos rhesymol i gredu y bydd y plentyn yn dioddef niwed sylweddol os na chaiff ei symud i fan diogel, neu ei gadw mewn man diogel.
- Dylid bod wedi rhoi un diwrnod o rybudd, ond mae'n bosibl ymgeisio'n ddirybudd.
- Os yw'r cais yn ddirybudd, rhaid i ni benderfynu a ddylid rhoi rhybudd.
- Nid oes rhaid ystyried y rhestr wirio lles.
- Rhaid rhoi sylw i faterion hawliau dynol.

## Pa mor hir y mae’n para?

- Cyfnod penodol hyd at 8 diwrnod.

## A ellir ymestyn y gorchymyn?

- Gellir – gellir caniatáu estyniad am 7 diwrnod pellach.

## Sut gellir gollwng neu amrywio’r gorchymyn?

- Ar gais gan unigolyn sydd â hawl i ymgeisio.

## Trefn cyflwyniadau/tystiolaeth

- Ceisydd.
- Atebwyr â chyfrifoldeb rhiant, e.e. rhieni.
- Atebwyr eraill, e.e. taid a/neu nain.
- Gwarcheidwad y plentyn.

NODER: Os caiff plentyn a gwarcheidwad eu gwahanu, byddwn yn penderfynu pryd mae’r plentyn yn mynd – tystiolaeth ac areithiau.

## Trefn yr areithiau cloi yn unol â disgresiwn y llys, ond fel rheol

- Atebwyr.
- Ceisydd.
- Gwarcheidwad y plentyn.

# Gorchymyn gofal interim

**Mae manylion llawn i'w gweld yn Adran 6 eich Llyfr Mainc y Llys Teulu.**

## Beth ydyw?

- Gorchymyn sy'n rhoi'r plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol ar sail interim cyn gwrandawiad terfynol; rhaid i'r awdurdod lleol roi llety i'r plentyn a'i gynnal.
- Gellir ei wneud hefyd wrth ohirio am gyfarwyddyd a.37 i edrych ar amgylchiadau plentyn.
- Mae'r awdurdod lleol yn cael cyfrifoldeb rhiant, wedi'i rannu â'r rhiant/rhieni.
- Gellir ymgorffori gofyniad eithrio ar gyfer unigolyn penodol hefyd.

## Beth mae'n rhaid i ni ei ystyried?

- Rhaid i ni fod yn fodlon, ar yr adeg y cymerodd y Ceisydd y camau amddiffyn cyntaf, bod sail resymol i gredu:
  - bod y plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol; a
  - bod hyn oherwydd diffyg gofal rhiant rhesymol neu bod y plentyn y tu hwnt i reolaeth rhiant.
- Y rhestr wirio lles.
- Tybir bod cyswllt rhesymol rhwng plentyn a rhai unigolion eraill gan gynnwys rhiant neu warcheidwad.

### Pa mor hir y mae'n para?

- Nes i'r cais gael ei benderfynu.

(Mae'r sefyllfa'n wahanol os yw'r llys yn gwneud cyfarwyddyd a.37 i ofyn i'r awdurdod lleol ymchwilio – gwiriwch hyn â'ch cynghorwr cyfreithiol.)

### Sut gellir gollwng neu amrywio'r gorchymyn?

- Ar gais gan unigolyn sydd â hawl i ymgeisio.

### Trefn cyflwyniadau/tystiolaeth

- Ceisydd.
- Atebwyr â chyfrifoldeb rhiant, e.e. rhieni.
- Atebwyr eraill, e.e. taid a/neu nain.
- Gwarcheidwad y plentyn.

NODER: Os caiff plentyn a gwarcheidwad eu gwahanu, byddwn yn penderfynu pryd mae'r plentyn yn mynd – tystiolaeth ac areithiau.

### Trefn yr areithiau cloi yn unol â disgresiwn y llys, ond fel rheol

- Atebwyr.
- Ceisydd.
- Gwarcheidwad y plentyn.

# Gorchymyn gofal

**Mae manylion llawn i'w gweld yn Adran 6 eich Llyfr Mainc y Llys Teulu.**

## Beth ydyw?

- Gorchymyn sy'n rhoi'r plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol, sy'n gorfod rhoi llety i'r plentyn a'i gynnal.
- Mae'r awdurdod lleol yn cael cyfrifoldeb rhiant am y plentyn, wedi'i rannu â'r rhiant/rhieni.

## Beth mae'n rhaid i ni ei ystyried?

- Rhaid i ni fod yn fodlon, ar yr adeg y cymerodd y Ceisydd y camau amddiffyn cyntaf:
  - bod y plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol; a
  - bod hyn oherwydd diffyg gofal rhiant rhesymol neu bod y plentyn y tu hwnt i reolaeth rhiant.
- Y rhestr wirio lles.
- Darpariaethau parhad y cynllun gofal.
- Tybir bod cyswllt rhesymol rhwng y plentyn a rhai unigolion eraill megis rhiant neu warcheidwad.

### Pa mor hir y mae'n para?

- Hyd at 18fed pen-blwydd y plentyn.

### A ellir ymestyn y gorchymyn?

- Na ellir.

### Sut gellir gollwng neu amrywio'r gorchymyn?

- Drwy gyfrwng gorchymyn mabwysiadu, gorchymyn trefniadau plant sy'n cynnwys trefniadau byw, gorchymyn gwarchodaeth arbennig, gorchymyn goruchwylio neu ar gais.

### Trefn cyflwyniadau/tystiolaeth

- Ceisydd.
- Atebwyr â chyfrifoldeb rhiant, e.e. rhieni.
- Atebwyr eraill, e.e. taid a/neu nain.
- Gwarcheidwad y plentyn.

NODER: Gellir clywed tystiolaeth arbenigwr ar unrhyw adeg. Os caiff plentyn a gwarcheidwad eu gwahanu, byddwn yn penderfynu pryd mae'r plentyn yn mynd – tystiolaeth ac areithiau.

### Trefn yr areithiau cloi yn unol â disgresiwn y llys, ond fel rheol

- Atebwyr.
- Ceisydd.
- Gwarcheidwad y plentyn.

# Gorchymyn goruchwylio interim

**Mae manylion llawn i'w gweld yn Adran 6 eich Llyfr Mainc y Llys Teulu.**

## Beth ydyw?

- Gorchymyn sy'n rhoi'r plentyn dan oruchwyliaeth awdurdod lleol, gweithiwr cymdeithasol neu swyddog prawf ar sail interim wrth aros am wrandawiad terfynol.
- Gellir ei wneud hefyd wrth ohirio am gyfarwyddyd a.37 i edrych ar amgylchiadau plentyn.
- Bydd y goruchwyliwr yn cynghori ac yn cynorthwyo'r plentyn ac yn dod yn gyfaill iddo.

## Beth mae'n rhaid i ni ei ystyried?

- Rhaid i ni fod yn fodlon, ar yr adeg y cymerodd y Ceisydd y camau amddiffyn cyntaf, bod sail resymol i gredu:
  - bod y plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol; a
  - bod hyn oherwydd gofal rhiant neu bod y plentyn y tu hwnt i reolaeth rhiant.
- Y rhestr wirio lles.

## Pa mor hir y mae'n para?

- Nes i'r cais gael ei benderfynu.

(Mae'r sefyllfa'n wahanol os yw'r llys yn gwneud cyfarwyddyd a.37 i ofyn i'r awdurdod lleol ymchwilio – gwiriwch hyn â'ch cynghorwr cyfreithiol.)

## Sut gellir gollwng neu amrywio’r gorchymyn?

- Ar gais gan unigolyn sydd â hawl i ymgeisio.

## Trefn cyflwyniadau/tystiolaeth

- Ceisydd.
- Atebwyr â chyfrifoldeb rhiant, e.e. rhieni.
- Atebwyr eraill, e.e. taid a/neu nain.
- Gwarcheidwad y plentyn.

NODER: Os caiff plentyn a gwarcheidwad eu gwahanu, byddwn yn penderfynu pryd mae’r plentyn yn mynd – tystiolaeth ac areithiau.

## Trefn yr areithiau cloi yn unol â disgresiwn y llys, ond fel rheol

- Atebwyr.
- Ceisydd.
- Gwarcheidwad y plentyn.

# Gorchymyn goruchwylio

**Mae manylion llawn i'w gweld yn Adran 6 eich Llyfr Mainc y Llys Teulu.**

## Beth ydyw?

- Gorchymyn sy'n rhoi plentyn dan oruchwyliaeth awdurdod lleol, gweithiwr cymdeithasol neu swyddog prawf.
- Bydd y goruchwyliwr yn cynghori ac yn cynorthwyo'r plentyn ac yn dod yn gyfaill iddo.

## Beth mae'n rhaid i ni ei ystyried?

- Rhaid i ni fod yn fodlon, ar yr adeg y cymerodd y Ceisydd y camau amddiffyn cyntaf:
  - bod y plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol; a
  - bod hyn oherwydd gofal rhiant neu bod y plentyn y tu hwnt i reolaeth rhiant.
- Y rhestr wirio lles.

## Pa mor hir y mae'n para?

- Am hyd at 1 flwyddyn, ond nid y tu hwnt i 18fed pen-blwydd y plentyn.

## A ellir ymestyn y gorchymyn?

- Gellir – 1 flwyddyn ar y tro hyd at uchafswm o 3 blynedd.

## Sut gellir gollwng neu amrywio'r gorchymyn?

- Drwy gyfrwng gorchymyn gofal neu ar gais.

## Trefn cyflwyniadau/tystiolaeth

- Ceisydd.
- Atebwyr â chyfrifoldeb rhiant, e.e. rhieni.
- Atebwyr eraill, e.e. taid a/neu nain.
- Gwarcheidwad y plentyn.

NODER: Gellir clywed tystiolaeth arbenigwr ar unrhyw adeg.  Os caiff plentyn a gwarcheidwad eu gwahanu, byddwn yn penderfynu pryd mae'r plentyn yn mynd – tystiolaeth ac areithia.

## Trefn yr areithiau cloi yn unol â disgresiwn y llys, ond fel rheol

- Atebwyr.
- Ceisydd.
- Gwarcheidwad y plentyn.

# Gorchymyn cyfrifoldeb rhiant

**Mae manylion llawn i'w gweld yn Adran 9 eich Llyfr Mainc y Llys Teulu.**

## Beth ydyw?

- Gorchymyn sy'n rhoi i'r Ceisydd yr holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant plentyn, yn ôl y gyfraith, mewn perthynas â'r plentyn a'i eiddo.

## Pwy sy'n cael ymgeisio?

- Tad heb gyfrifoldeb rhiant.
- Gŵr, gwraig neu bartner sifil rhiant â chyfrifoldeb rhiant (h.y. llys-riant).
- Ail riant benywaidd.

## Beth mae'n rhaid i ni ei ystyried?

- Lles y plentyn yw'r ystyriaeth bwysicaf i ni.
- Yr holl amgylchiadau perthnasol, ac yn enwedig wrth ystyried cais gan dad biolegol:
  - faint o ymrwymiad a ddangosir;
  - faint o ymlyniad sydd; a
  - rhesymau am ymgeisio am y gorchymyn.
- Efallai y bydd ystyriaethau gwahanol yn berthnasol i geisiadau eraill.

### Gellir cael cyfrifoldeb rhiant mewn ffyrdd eraill hefyd

- Gweler Llyfr Mainc y Llys Teulu.

### Pa mor hir y mae'n para?

- Hyd at 18fed pen-blwydd y plentyn, oni bai ei fod yn cael ei ddiweddu'n gynt.

### Sut gellir diweddu'r gorchymyn yn gynt?

- Yn unol â gorchymyn y llys ar gais gan:
  - unrhyw unigolyn â chyfrifoldeb rhiant; neu
  - gyda chaniatâd y llys, y plentyn.
- Drwy wneud gorchymyn mabwysiadu.

### Trefn cyflwyniadau/tystiolaeth

- Ceisydd.
- Atebydd.

### Trefn yr areithiau cloi yn unol â disgresiwn y llys, ond fel rheol

- Atebydd.
- Ceisydd.

# Gorchymyn trefniadau plant

**Mae manylion llawn i'w gweld yn Adran 9 eich Llyfr Mainc y Llys Teulu.**

### Cyn ymgeisio

- Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno gwneud cais am orchymyn cyfraith breifat fynd i Gyfarfod Asesu a Gwybodaeth Cyfryngu, oni bai ei fod wedi'i eithrio.

### Beth ydyw?

- Gorchymyn sy'n pennu gyda phwy y bydd y plentyn dan sylw'n byw, yn treulio amser neu mewn cysylltiad â hwy fel arall a phryd y bydd y plentyn yn byw, yn treulio amser neu mewn cysylltiad fel arall gydag unrhyw unigolyn.

### Pwy sy'n cael ymgeisio?

- Fel hawl: unrhyw riant, gwarcheidwad, gwarcheidwad arbennig neu lys-riant â chyfrifoldeb rhiant.
- Gyda chaniatâd: unrhyw un arall, gan gynnwys y plentyn.
- Gall y llys wneud gorchymyn ar eu cynnig eu hunain.
- Ni all yr awdurdod lleol ymgeisio.

### Beth mae'n rhaid i ni ei ystyried?

- Y rhestr wirio lles, os gwrthwynebir y gorchymyn.
- Egwyddor y pwys mwyaf a'r egwyddor dim gorchymyn.

Trais domestig – mae angen craffu'n ofalus ar hyn hyd yn oed os ceir cytundeb.

### Beth arall y dylid ei ystyried?

- Mae cyfrifoldeb rhiant yn rhywbeth arall i'r llys ei ystyried.
- Os yw'r gorchymyn yn ymwneud â threfniadau byw'r plentyn, mae'n sicrhau:
  - na chaiff cyfenw'r plentyn ei newid heb ganiatâd ysgrifenedig gan bawb sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu ganiatâd y llys; ac
  - na chaiff y plentyn ei symud o'r Deyrnas Unedig heb yr un caniatâd â'r uchod am fwy na mis.

### Pa bwerau a dyletswyddau sy'n bodoli dan y gorchymyn?

- Mae'r llys yn gallu gwneud gorchymyn:
  - sy'n cynnwys cyfarwyddiadau ynglŷn â sut i'w gyflawni;
  - sy'n pennu amodau y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy; ac
  - y bydd mewn grym am gyfnod penodol.
- Gall y llys ofyn i Cafcass neu CAFCASS Cymru fonitro cydymffurfiad unigolion penodol â'r gorchymyn, ac adrodd yn ôl amdano, am gyfnod hyd at 12 mis.
- Rhaid i'r llys atodi hysbysiad rhybudd at orchmynion. (Gweler Adrannau 9 a 14 eich Llyfr Mainc y Llys Teulu i weld y geiriad llawn.)

# Gorchymyn trefniadau plant (parhad)

**Mae manylion llawn i'w gweld yn Adran 9 eich Llyfr Mainc y Llys Teulu.**

### Pryd mae ei effaith yn dod i ben?

- Ar 16eg pen-blwydd y plentyn (neu ar ei 18fed pen-blwydd os yw'r llys yn cyfarwyddo hynny).
- Os yw'r gorchymyn yn ymwneud â threfniadau byw'r plentyn, ar 18fed pen-blwydd y plentyn, oni bai bod y llys yn cyfarwyddo y dylai ei effaith ddod i ben yn gynharach.
- Os yw'r ddau riant sydd â chyfrifoldeb rhiant yn byw gyda'i gilydd am gyfnod parhaus o 6 mis.
- Ar ôl gwneud rhai gorchmynion eraill (siaradwch â'ch cynghorwr cyfreithiol).

### Sut gellir gollwng neu amrywio'r gorchymyn?

- Ar gais gan unrhyw un sydd â hawl i ymgeisio am orchymyn a.8.
- Ar gais gan unrhyw un y gwnaethpwyd y gorchymyn ar ei gais.

### Trefn cyflwyniadau/tystiolaeth

- Ceisydd.
- Atebydd.

**Trefn yr areithiau cloi yn unol â disgresiwn y llys, ond fel rheol**

- Atebydd.
- Ceisydd.

Noder bod gan y llys ddisgresiwn eang wrth gynnal achosion sy'n cynnwys ymgyfreithwyr drostynt eu hunain.

# Cyfarwyddyd gweithgaredd/Amod gweithgaredd

## Beth ydyw?

### Cyfarwyddyd gweithgaredd

- Mae'r llys yn gallu gwneud cyfarwyddyd gweithgaredd:
  - os oes anghydfod ynglŷn â'r cais; ac
  - os yw'r llys yn ystyried a ddylent wneud, amrywio neu ollwng gorchymyn trefniadau plant;
  - sy'n mynnu bod un o'r partïon yn yr achos yn gwneud gweithgaredd a fyddai'n helpu i sefydlu, cynnal neu wella cyfraniad gan barti at fywyd y plentyn dan sylw;
  - ac eithrio ar adeg y penderfyniad terfynol.
- Gall y llys hefyd wneud gorchymyn gweithgaredd wrth ystyried achos o dorri amodau gorchymyn trefniadau plant.

### Amod gweithgaredd

- Mae'r llys yn gallu gwneud amod gweithgaredd:
  - wrth wneud neu amrywio gorchymyn trefniadau plant;
  - sy'n mynnu bod unigolyn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd a fyddai'n helpu i sefydlu, cynnal neu wella cyfraniad gan barti at fywyd y plentyn dan sylw.

## Beth mae'n rhaid i ni ei ystyried?

- Gwybodaeth ynglŷn â'r gweithgaredd a'r effaith ar yr unigolyn dan sylw – gellir gofyn am adroddiad gan Cafcass neu CAFCASS Cymru.
- Rhaid i'r gweithgaredd fod yn briodol, o fewn pellter teithio rhesymol ac wedi'i weinyddu gan ddarparwr addas.
- Mae'r effaith ar yr unigolyn yn cynnwys gwrthdaro â chredoau crefyddol ac ymyrryd â gwaith neu addysg.
- Mae lles y plentyn yn hollbwysig.

# Gorchymyn gorfodi/Gorchymyn iawndal ariannol

## Gorchymyn gorfodi

### Beth ydyw?

- Gofyniad am rhwng 40 a 200 awr o waith di-dâl.
- Gall y llys wneud gorchymyn gorfodi os ydynt yn fodlon y tu hwnt i amheuaeth resymol bod unigolyn wedi methu â chydymffurfio â'r gorchymyn trefniadau plant, oni bai bod ganddo esgus rhesymol dros beidio â chydymffurfio.
- Dim ond ar gais y mae'r llys yn cael gwneud gorchymyn gorfodi neu orchymyn iawndal ariannol – gwiriwch â'ch cynghorwr cyfreithiol pwy sy'n cael ymgeisio.

### Beth mae'n rhaid i ni ei ystyried?

- Rhaid iddo fod yn angenrheidiol ac yn gymesur.
- Faint o waith di-dâl sydd ar gael yn yr ardal.
- Effaith y gorchymyn ar yr unigolyn, gan gynnwys gwrthdaro â chredoau crefyddol ac ymyrryd â gwaith neu addysg.
- Lles y plentyn.

Dylai fod y wybodaeth hon ar gael mewn adroddiad gan Cafcass neu CAFCASS Cymru.

### Torri amodau gorchmynion gorfodi

- Gall y llys, os ydynt yn fodlon bod yr unigolyn wedi methu â chydymffurfio â'r gorchymyn gorfodi, gynyddu nifer yr oriau hyd at yr uchafswm o 200 neu ymestyn y terfyn 12 mis i gydymffurfio.

## Gorchymyn iawndal ariannol

- Gall y llys orchymyn iawndal am golled ariannol a gafwyd o ganlyniad i dorri amodau gorchymyn trefniadau plant. Mae'r gorchymyn yn orfodadwy fel dyled sifil.
- Efallai na fydd y llys yn gwneud gorchymyn os ydynt yn fodlon bod gan yr unigolyn dan sylw esgus rhesymol dros beidio â chydymffurfio.

### Beth mae'n rhaid i ni ei ystyried?

- Sefyllfa ariannol yr unigolyn sydd wedi torri'r amodau.
- Lles y plentyn.

# Gorchymyn gwarchodaeth arbennig (SGO)

**Mae manylion llawn i'w gweld yn Adran 9 eich Llyfr Mainc y Llys Teulu.**

## Beth ydyw?

- Mae gorchymyn gwarchodaeth arbennig yn penodi un neu fwy o unigolion yn 'warcheidwad arbennig' y plentyn.
- Mae rhieni'r plentyn yn cadw eu cyfrifoldeb rhiant, ond mae gan y gwarcheidwad arbennig gyfrifoldeb rhiant pennaf.

## Adroddiad awdurdod lleol

- Rhaid hysbysu'r awdurdod lleol perthnasol 3 mis cyn gwneud cais.
- Rhaid i'r awdurdod lleol baratoi adroddiad am addasrwydd yr ymgeiswyr.
- Ni chaiff y llys wneud gorchymyn gwarchodaeth arbennig heb adroddiad yr awdurdod lleol.

## Beth mae'n rhaid i ni ei ystyried?

- Y rhestr wirio lles.
- Egwyddor y pwys mwyaf a'r egwyddor dim gorchymyn.
- Hawliau dynol.

### Gorchmynion eraill

- Rhaid i'r llys ystyried a ddylid gwneud gorchymyn trefniadau plant gyda darpariaeth cyswllt.
- Rhaid i'r llys ystyried a ddylid amrywio neu ollwng unrhyw orchmynion a.8 presennol sydd mewn grym.

### Pryd mae ei effaith yn dod i ben?

- Pan fydd y plentyn yn 18 oed.
- Pan gaiff gorchymyn gofal ei wneud.
- Pan gaiff gorchymyn mabwysiadu ei wneud.
- Os caiff y gorchymyn ei ollwng.

### Trefn cyflwyniadau/tystiolaeth

- Ceisydd.
- Atebydd.

### Trefn yr areithiau cloi yn unol â'n disgresiwn ni, ond fel rheol

- Atebydd.
- Ceisydd.

# Gorchymyn rhag molestu

**Mae manylion llawn i'w gweld yn Adran 11 eich Llyfr Mainc y Llys Teulu.**

## Beth ydyw?

- Gorchymyn sy'n gallu mynnu bod unigolyn yn peidio â:
  - defnyddio neu fygwth trais;
  - aflonyddu, poenydio, molestu;
  - gwneud pethau penodol eraill i unigolyn arall neu blentyn.

(Gellir geirio hyn i atal unigolyn rhag gweithredu drwy drydydd partïon.)

## Beth yw ymyrryd?

- Mae'n golygu ymddygiad bwriadol gyda'r bwriad o achosi aflonyddu difrifol.

## Beth mae'n rhaid i ni ei ystyried?

- Yr holl amgylchiadau, gan gynnwys yr angen i sicrhau iechyd, diogelwch a lles Ceisydd, parti mewn achos teulu arall neu blentyn perthnasol.

## Pryd y gellir gwneud gorchymyn?

- Mewn cais pwrpasol.
- Mewn unrhyw achos teulu y mae’r atebydd yn barti ynddo.
- Yn ddirybudd i’r atebydd dan rai amgylchiadau (gofynnwch i’ch cynghorwr cyfreithiol).
- Caiff y llys dderbyn addewid yn hytrach na gwneud gorchymyn (os nad oes trais wedi’i ddefnyddio na’i fygwth).

## Pa mor hir y mae’n para?

- Am gyfnod penodol.
- Nes y gwneir gorchymyn pellach.
- Os cafodd ei wneud mewn achos teulu arall, pan gaiff yr achos hwnnw ei dynnu’n ôl neu ei wrthod.
- Gellir ei amrywio neu ei ollwng ar gais gan y naill barti neu’r llall.

## Trefn cyflwyniadau/tystiolaeth

- Ceisydd.
- Tyst(ion) Ceisydd.
- Atebydd.
- Tyst(ion) yr atebydd.

# Gorchymyn lleoli

**Mae manylion llawn i'w gweld yn Adran 15 eich Llyfr Mainc y Llys Teulu.**

### Beth yw effaith y gorchymyn?

- Mae'r gorchymyn yn golygu y bydd gan y rhieni biolegol lawer llai o hawl i herio gorchymyn mabwysiadu a wneir.
- Mae'r rhieni biolegol yn cadw cyfrifoldeb rhiant, ond yr asiantaeth mabwysiadu sy'n penderfynu i ba raddau y gallant ddefnyddio'r pŵer hwn.

### Pwy sy'n ymgeisio am y gorchymyn?

- Rhaid i'r awdurdod lleol ymgeisio am y gorchymyn.

### Adroddiadau Cafcass neu CAFCASS Cymru

- Rhaid cael adroddiad gan warcheidwad i gynghori'r llys ynglŷn â materion sy'n ymwneud â lles y plentyn a pha mor briodol yw'r gorchymyn lleoliad.

## Beth mae'n rhaid i ni ei ystyried?

- Mae rhestr wirio lles achosion Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn berthnasol.
- Os nad yw'r rhieni'n rhoi eu caniatâd, rhaid bod y llys yn fodlon na allant roi caniatâd neu bod lles y plentyn yn mynnu y dylid gwneud hyn heb eu caniatâd.
- Egwyddor y pwys mwyaf a'r egwyddor dim gorchymyn.
- Hawliau dynol.

## Cyswllt

- Rhaid i'r llys ystyried cyswllt ag unigolion penodol tra bo'r gorchymyn lleoliad mewn grym.
- Gellir amrywio neu ollwng unrhyw orchymyn cyswllt a wneir ar yr adeg hon yn nes ymlaen.

## Trefn cyflwyniadau/tystiolaeth

- Siaradwch â'ch cynghorwr cyfreithiol ynglŷn â hyn.

# Gorchymyn mabwysiadu

**Mae manylion llawn i'w gweld yn Adran 14 eich Llyfr Mainc y Llys Teulu**

## Beth yw effaith y gorchymyn hwn?

- Bydd gorchymyn llys yn rhoi cyfrifoldeb rhiant parhaol am y plentyn i'r mabwysiadwyr.
- Bydd cyfrifoldeb rhiant a ddelir gan unrhyw unigolyn arall yn union cyn i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei wneud yn cael ei ddiddymu – heblaw mewn achos mabwysiadu gan gwpl lle mae un o'r cwpl yn rhiant biolegol sy'n byw gyda'r plentyn; ni fydd hyn yn effeithio ar hawliau rhiant o'r fath.

## Pwy sy'n cael ymgeisio?

- Unrhyw un sy'n bodloni'r gofynion ynglŷn â domisil a phreswyliad.

## Faint oed all y plentyn fod?

- Dan 18 ar adeg y cais, a dan 19 ar adeg gwneud y gorchymyn.

## Amodau ar wneud gorchymyn mabwysiadu

- Os oes gorchymyn lleoli wedi'i wneud:
  - mae'r plentyn wedi'i leoli gyda chaniatâd y rhieni; neu
  - mae gorchymyn lleoli; ac
  - nid oes rhiant/gwarcheidwad yn gwrthwynebu gwneud y gorchymyn mabwysiadu.

- Os nad oes gorchymyn lleoli wedi'i wneud:
  - mae'r rhiant/gwarcheidwad yn cydsynio;
  - mae'r rhiant/gwarcheidwad wedi rhoi caniatâd ymlaen llaw ac nid yw'n gwrthwynebu gwneud y gorchymyn; neu
  - mae'r rhiant/gwarcheidwad yn gwrthwynebu gwneud y gorchymyn ac mae'r llys wedi penderfynu na ellir canfod y rhiant/gwarcheidwad neu na all roi caniatâd, neu mae lles y plentyn yn mynnu y dylid gwneud hyn heb eu caniatâd.

### Adroddiadau Cafcass neu CAFCASS Cymru

- Os yw'r rhieni'n cydsynio â'r gorchymyn mabwysiadu, rhaid i'r Swyddog Adrodd baratoi adroddiad i gadarnhau bod y caniatâd wedi'i roi'n rhydd.
- Os yw'r rhieni'n gwrthwynebu'r gorchymyn, rhaid i warcheidwad y plentyn baratoi adroddiad ynglŷn â phriodoldeb gorchymyn.

### Beth mae'n rhaid i ni ei ystyried?

- Y rhestr wirio lles.
- Egwyddor y pwys mwyaf a'r egwyddor dim gorchymyn.
- Hawliau dynol.
- Cyswllt ar ôl mabwysiadu.

### Trefn cyflwyniadau/tystiolaeth

- Siaradwch â'ch cynghorydd cyfreithiol ynglŷn â hyn.